CYNGOR CYMUNED LLANDRILLO

LLANDRILLO COMMUNITY COUNCIL

Cysylltwr/Connector: Mrs Gaenor Richards,
Annedd Wen, Llandrillo, Corwen, Sir Ddinbych. LL21 0TH
☎: 01490 440262 **e-bost**: cyngorplwyf@llandrillo.cymru

Cofnodion cyfarfod Nos Wener, 5ed Hydref 2018 a gynhaliwyd yn y Ganolfan.

Yn bresennol:
Cynghorwyr: Mrs. Eira Lewis (C), Mrs Becky Mollinson White, Mr John W Jones, Mr Huw Lloyd, Mrs Anne Williams

Cyhoedd: Mr Andy Morgan
Clerc: Gaenor Richards

1. Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd, Mrs Eira Lewis.
   Llongyfarchwyd Anne a Vaughan ar ddathlu eu Penblwydd Priodas Aur heddiw

2. **YMDDIHEURIADAU:** Mrs Rhiannon Jones, Mr Geraint Jones a Mr David Williams

3. **COFNODION CYFARFOD MEDI 7FED, 2018**
   Fe'i cafwyd yn gywir, a'u harwyddo gan Eira Lewis.

4. **MATERION YN CODI O'R COFNODION**
   - **FYNWENT** – 'kerbstone' wedi'w gosod ar garreg yn ddiweddar. Yr ymgymerwr wedi cysylltu a'r teulu. Y Cyngor cymuned i yrru llythyr i gefnogi hyn.
   - **APÊL EISTEDDFOD YR URDD 2020** – Clerc wedi gysylltu â Cynwyd – disgwyl cadarnhad o ddyddiad y cyfarfod nesa.
   - **GAMFA LLWYBYR Y WERN** – wedi derbyn e bost gan Adrian Walls (trwy Mabon) fod hyn erbyn hyn yn flaenoriaeth uchel. Y clerc i yrru llun ato.
   - **PROBLEM PRY LLUDW (WOODLICE) YN BRO DINAM –** Mabon wedi cysylltu, a'r Cyngor, a dylai'r gwaith ei gyflawni yn fuan.
   - **LLIF OLEUADAU AR YR EGLWYS –** yr Eglwys yn fodlon goleuo'r Eglwys dros yr Adfent, a'r Cyngor Cymuned i dalu costau rhedeg y goleuadau acc i gael 'timer' ar y goleuadau. Cyfrifoldeb y Cyngor Cymuned yw'r goleuadau, ac hefyd tra ar dir yr Eglwys dros yr adfent.

5. **GOHEBIAETH**
   - E BOST gan Joanne Ellis, Sir Ddinbych ynglyn â **goleuadau tu ôl i'r toiledau** ddim yn gweithio. Cyfrifoldeb y Sir, nid y Cyngor Cymuned yw rhain. Hefyd wedi eu hysbysu i gwblhau tynnu yr hen polion lamp ger y bont.
   - E BOST – 19.9.2018 - Amy Selby, Sir Ddinbych – grant '**Symiau Cymudol Mannau Agored'** – Llandrillo ar y rhestr. Y Clerc i holi faint sydd ar gael, ac a fyddai grant ar gael ar gyfer y llwybyr droed i'r bont gerdded.
   - Ebost – Agenda **Gweithdy Cynllunio Cymunedol** – 26/10/2018 Dinbych – Yr Hen Ysgol, Llandrillo ar yr agenda – David Robinson yn mynychu.

- AVIVA Community Fund – o ddefnydd i unrhyw Gymdeithas yn y pentref – Becky cymeryd y gwybodaeth i'r Eglwys.

6. MATERION CYNLLUNIO

- CAIS 07/2018/0901 – *Cais am weithred Amrywiol i ddileu 11 Rhos Helyg o Rwymedigaeth Adran 106 yn ymwneud â darpariaeth tai fforddiadwy mewn cysylltiad â chaniatâd cynllunio 07/2004/0805 yn gyfnewid am swm cymudo o £10,000* – cais arall ynglŷn a'r adeilad yma wedi bod mis diwethaf (07/2018/0243) – y Cynghorrwyr angen mwy o eglurhad cyn gwneud penderfyniad. Clerc i holi.
  .

7. MATERION ARIANNOL

- Rhannu a trafod y Fantolen
- Wedi derbyn 2 anfoneb
  - Richard Moody torri gwair y cae chwarae mis Medi - £60 (100099)
  - Ganolfan – Hurio ar gyfer cyfarfopd yr Hen Ysgol - £10 (100098)
- **AVOW** – y cadeirydd i arwyddo ffurflenni i ganiatáu i AVOW i weithio ar ein rhan i gwblhau y cyflogau.
- **AWDIT ALLANNOL**
  Adroddiad terfynol wedi cyrraedd gan BDO – trafod y pwyntiau a godwyd, a'r ffordd ymlaen. 'Creu Cynllun Gweithredu'

8. GDPR

- Dim materion i'w trafod

9. UNRHYW FATER ARALL

- **Plot Claddu –** clerc wedi derbyn cais i brynu plot yn y fynwent. £300 i brynu plot (hyn ddim yn cynnwys costau claddu ayyb)**.** Clerc i yrru anfoneb.
- **Offer trydanol –** Dal i ddisgwyl nol gan Chris Linder ynglŷn a'r goleuadau.
- **YR HEN YSGOL** – Pwyllgor yr Hen Ysgol wedi derbyn grant o £10.5K gan Cadwyn Clwyd a £4.5k gan Grŵp Cynefin i greu 'Feasibility Report' - Rhannwyd copi o'r 'Feasibility Report' i'r Cynghorwyr.
- **Coeden yn Bro Dinam** – mae un o'r coed ar stâd Bro Dinam yn pydru, ac erbyn hyn yn beryg. Ni fydd modd rhoi y goleuadau Nadolig arni eleni. Y clerc i gysylltu â Mabon.
- **Palmant Bro Dinam** – dal heb eu drwsio – person wedi disgyn erbyn hyn. Cysylltu â Mabon ynglŷn a'r mater a'r clerc i yrru llun.
- **Adran Urdd** – i gychwyn yn y pentre ar nos Iau am treial tan y Nadolig. Angen gwirfoddolwyr i helpu.
- **Torch Pabi ar gyfer 5ed Tachwedd** – cytuno i archebu trwy D.Lewis. Anfoneb i ddilyn.
- **Cyfarfod Un Llais Cymru** – 10fed o Hydref yn Corwen – Eira yn mynychu
- **Gwefan y Cyngor Cymuned** – aed trwy'r wefan a grëwyd gan y clerc. Cytunwyd i'w droi yn fyw, a nodi ar hysbysfwrdd Stores y bydd y munudau i'w gweld o hyn ymlaen ar y wefan.

Arwyddwyd: …… Dyddiad : ……